# CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

## COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR NOS FERCHER 06.09.2023 AM 7 O'R GLOCH YR HWYR, yn y Ganolfan, Waunfawr.

**Presennol –** Cynghorwyr

Hawys Tuff (Cadeirydd)
Liz Daniel
Iwan Davies
Dafydd Davies
Edgar Owen
Doug Jones
Shoned Rees Griffith (Clerc)

**1. Croeso'r Cadeirydd -** Croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol.

**2. Ymddiheuriadau –** Cyng DJ, Cyng MT, Cyng LLI, Cyng SB

**3. Datganiadau aelodau yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.**

3.1. Ni ddatganwyd gwybodaeth ychwanegol i'r uchod, nag a restrir yn barod o fewn cofrestr 'Datganiad Cyffredinol o Fuddiannau Personol Aelodau'.

**4. Derbyn Cofnodion Cyfarfod 19.07.2023**
Y Cyng ID yn cynnig fod y cofnodion yn gywir, Y Cyng LD yn eilio.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion 19.07.2023**
**Materion Caeathro** –
**Troedffordd o Gaeathro i Gaernarfon -** Ymateb i'r cais PAC wedi ei anfon erbyn 25.09.2023. Wedi derbyn e-bost gan Cyngor Gwynedd yn cadarnhau fod yr archwiliad dal yn mynd ymlaen hefo'r Heddlu i'r ddamwain. Mi fydd y Cyngor mewn cysylltiad pellach unwaith y bydd wedi cwblhau.
**Llinellau Melyn ger mynediad Erw Wen** - Ar y rhaglen waith Cyngor Gwynedd.
**Monitro cyflymer traffic Hen Lon Gaeathro** - Aros canlyniad yr arolwg traffic.
**Cylchfan Gaeathro** ar y rhaglen waith y Cyngor i gael ei ail-wynebu.
**Llwybr troed o Garej Gwalia hyd at y Llwybr Cyhoeddus** - Cyng LLI i rannu map yn cadarnhau y lleoliad dan sylw.

**Materion Waunfawr** –
**Les tir tu ol i'r Ganolfan** / **Cae Aml-dywydd** - Wedi derbyn e-bost gan Beth Morgan, Pritchadr Jones Lane, wedi derbyn gohebiaeth gan Cyngor Gwynedd ynglyn a'r Les. Oherwydd cysylltiad personol a'r pentref, Beth yn hapus i ddelio ar mater ar ran y Cyngor Cymuned ar bris gostynedig sef £600. Pawb yn cytuno a'r ffi. Clerc i gysylltu a'r cyfreithwyr i'w penodi, ac i holi hefyd ynglyn a bwriad Cyngor Gwynedd i'r gwaith sydd ei angen ei wneud i'r cae cyn ei droglwyddo i'r Cyngor Cymuned yn dilyn negeseuon diweddar ar Facebook ynglyn a cyflwr y cae.
**Golau fflachio bob ochr i'r pentref –** Dim i'w drafod ar hyn o bryd.

**Gwefan y Cyngor Cymuned –**wedi ei diweddaru gan y Cyng DD, clerc i ddarllen drosti, angen symud ymlaen rwan hefo cyfeiriadau e-bost i'r Cynghorwyr.
**Drych** - Aros i Cyngor Gwynedd osod y Drych gyferbyn a'r Hen Bost.
**Potiau blodau yn Waunfawr/Caeathro** - Edrych yn dda ar hy o bryd.
**Baw Ci** - Broblem wedi gwaethygu eto yn ddiweddar, angen trefnu i fynd i'r ysgol.
**Gor yrru tu allan i'r ysgol** - Aros Cyngor Gwynedd.
**Bin tu allan i siop** - Perchennog gyda trefniant preifat i gael gwaraed o'r sbwriel.

**6.** **Seddi Gwag -** un sedd wag ar ol ar y Cyngor Cymuned, Cynghorwyr i holi yn y pentref os oes gan rhwyun ddiddordeb.

**7.** **Gerddi Bach -** Clerc wedi cadarnau hefo MacVenture i gynnal rchwiliad o'r offer chwarae, a pris am osod mat rwber o dan y swings. Aros adroddiad. Trigolion cyfagos wedi cael problemau dwr i'w tai eto yn ddiweddar. Clerc wedi bod ar safle hefo YGC, Grwp Cynefin a Claytons. YGC wedi gwneud sianel yn y cae ar hyn o bryd i arallgyfeirio y dwr o'r tai hyd nes y byddwn yn gwybod beth yw'r broblem. Clerc i gysylltu a YGC i gael diweddariad. Gall hyn fod yn waith costus i'r Cyngor Cymuned. Clerc i gysylltu a'r person cywllt yn YGC i ofyn am gyfarfod hefo'r Cyng DD i drafod cynllun llifogydd y pentref, ar clerc i gysylltu a tir feddianwyr i ofyn iddynt agor ffosydd er mwyn trio helpu y sefyllfa.

**8.** **Adroddiadau**

**a.** **Lloches Bws** -Cyng EO wedi cyfarfod contracwyr Cybi Cyf ar safle i drafod gosod y ddau loches bws newydd. Aros am y pris. Ni fydd yn bosibl i osod un yn Groeslon oherwydd y tir. Posib ella i osod yr ail un wrth ymyl y cael peldroed tu ol i'r Ganolfan?

**.** **Y Fynwent** - Rheolau'r Fynwent yn barod rwan i gael eu harddangos. Clerc i drefnu i gael eu cyfieuthu cyn cael eu printio a'u rhoid a'r wefan y Cyngor Cymuned. Clerc i holi Meg Dafydd.

**c**. **Llwybrau -**. Wedi atgoffa G R Services am y wal tu ol i'r Cofgolofn. Angen cysylltu hefo Cyngor Gwynedd ynglyn a torri llwybr ger Bryn Melyn a Dolwar Fach hefyd.

**ch. Safle y Toiled a'r Maes Parcio drost ffordd i'r Hen Bost -** Dim

**d**. **Cynllun Gwyrfai Gwyrdd** -Bron yn barod i ffurfio cwmni er mwyn gallu gwneud ceisiadau am grantiau gan y Loteri Cenedlaethol a gobeithio gwneud cais grant Perthyn erbyn diwedd y mis. Cyng DD wedi cyfarfod hefo Adra yn ddiweddar i drafod Gwyrfai Gwyrdd.

**9.** **Materion Cynllunio**

**a.** **Ceisiadau newydd**

| Dyddiad Cofrestru | Bwriad | Lleoliad | Rhif Cais | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 22.08.2023 | Cynnig i godi 6 annedd preswyl newydd | Safle Whiteways, Waunfawr | C23/0619/26/LL | 4 Aelod o blaid<br>1 Aelod yn erbyn.<br>Mwyafrif o blaid . |

## 10. Gohebiaeth

e-byst aelodau - ymateb i gais cynllunio
Cyng DelythJ - ymddiheuro ddim yn y cyfarfod
e-bost gan etholwr - llwybr wedi cau yn ardal Betws Garmon - clerc wedi ei anfon ymlaen i clerc Betws Garmon.
Cyngor Gwynedd - Etholiadau Gwynedd
Beth Morgan, Pritchard Jones Lane - Les Cae Synthetig, Waunfawr
Cyngor Gwynedd - Preasept
Unllais - hyfforddiant
Cyng DD - safle we Cyngor Cymuned
Cyngor Gwynedd - cynllunio
Traffig - cadarnhau monitro traffic wrth yr ysgol
Cyng MT - holi am ddiweddariad i'r llinellau melyn yn Caeathro
Cyngor Gwynedd - Rhybydd cau ffordd
Cyngor Gwynedd - Erthygl 4
Pwyllgor Cylch Meithrin Waunfawr - diddordeb yn creu noson i godi pres i'r mudiad hefo noson goleuo'r goedan.
Theatr Bara Caws - diolch am y rhodd
Cyngor Gwynedd - Ymateb i ymholiad am y ffordd rhwng Caeathro a Chaernarfon.

## 11. Materion Ariannol

### 11.1 Arian wedi ei dalu allan

| | |
|---|---|
| Cyflog Clerc Gorffennaf | £258.00 |
| H M Revenue & Customs | £52.00 |
| G R Services | £2800.00 |
| Cyflog Cerc Awst | £258.00 |
| H M Revenue & Customs | £52.00 |
| Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro | £630.00 |

### 11.2 Arian a dderbyniwyd

| | |
|---|---|
| Preaspet | £6000.00 |

### 11.3 Anfonebau i'w talu

| | |
|---|---|
| Antur Waunfawr | £14.40 |
| Cyflog Clerc Medi | £258.00 |
| HM Revenue & Customs | £52.00 |
| G R Services | £630.00 |

### 11.4 Ffioedd Banc

| | |
|---|---|
| Awst - Medi | £5.80 |

Clerc a'r Cyng EO angen trefnu i fynd i'r banc.

Cyng DD wedi bod yn edrych am Laptop i'r Clerc hefyd a wedi anfon linc - i'w drafod yn ein cyfarfod nesaf.

## 12. Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf

Nos Fercher, 18.10.2023,yn, Ganolfan Waunfawr.  Cafwyd trafodaeth ynglyn a

cynnal y cyfarfodydd o hyn ymlaen a dylsa ni fod yn cyfarfod wyneb i wyneb yn rheolaidd, neu gyfuniad o zoom hefyd.  I'w drafod yn ein cyfarfod nesaf.

**13. Materion Aelodau. -**

Cyng EO - Dim wedi ei dderbyn
Cyng SB - Dim wedi ei dderbyn
Cyng DJ - Dim wedi ei dderbyn
Cyng ID - Dim wedi ei dderbyn.
Cyng LD - Dim wedi ei dderbyn
Cyng MJ - Dim wedi ei dderbyn
Cyng DJ - Dim wedi ei dderbyn
Cyng HT - Dim wedi ei dderbyn
Cyng LLI - Dim wedi ei dderbyn.
Cyng DD- Dim wedi ei dderbyn